Pam y dylem frwydro yn erbyn gyrru oddi ar y ffordd yn anghyfreithlon ar y Comin?

Trosolwg

Mae dysgwyr yn ysgogi eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth flaenorol am yrru oddi ar y ffordd. Maent yn ymchwilio ymhellach gan ddefnyddio sgiliau ymchwil ac yn gwerthuso eu canfyddiadau. Mae dysgwyr yn cymharu gyrru oddi ar y ffordd yn gyfreithlon gyda gyrru oddi ar y ffordd yn anghyfreithlon, gan bwyso a mesur y manteision a'r anfanteision, cyn meddwl yn greadigol i ddatblygu cynllun gweithredu i leihau gyrru oddi ar y ffordd ar y Comin.

Cyfleoedd i ddatblygu...



COMIN GELLIGAER & MERTHYR COMMON
Llywodraeth Cymru Welsh Government

Adnoddau sy'n ofynnol ar gyfer y gweithgaredd

- Mynediad i'r rhyngrwyd.

Adnoddau wedi eu cynnwys gyda'r gweithgaredd hwn

1. Clip fideo o yrru oddi ar y ffordd cyfreithlon yn ne Cymru: https://www.youtube.com/watch?v=TEjw5xoO7QE
2. Sgwâr ffynhonnell – wedi ei argraffu ar bapur A3
3. Grid CwAMFf
4. Clip fideo o beryglon gyrru oddi ar y ffordd: https://www.youtube.com/watch?v=1ArBOilzwoE
5. Mat bwrdd – wedi ei argraffu ar bapur A3
6. Cwestiynau ffocws a awgrymir mewn setiau, sy'n ymwneud â phob tasg, y gellir eu rhoi i bob pâr/grŵp wrth iddynt ddechrau pob tasg. I'r gwrthwyneb, gall yr athro ddefnyddio'r cwestiynau hyn.
7. Nodiadau'r athro fel cefndir i yrru oddi ar y ffordd.

Sut i gynnal y gweithgaredd

Tasg 1: Beth yw 'gyrru oddi ar y ffordd'?

Gofynnwch i'r dysgwyr wylio'r clip fideo (**Adnodd 1**) yn dangos beiciau modur pedair olwyn yn gyrru oddi ar y ffordd yn gyfreithlon yn ne Cymru. Anogwch barau o ddysgwyr i feddwl am a thrafod yr hyn maen nhw'n ei weld ar y clip fideo ac i gofnodi eu syniadau ar sgwâr ffynhonnell (**Adnodd 2**).

Cwestiynau a awgrymir

- Beth sy'n digwydd yn y clip fideo? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pa fath o gerbyd yw hwn? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth yw 'oddi ar y ffordd'? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa gerbydau eraill sy'n cael eu defnyddio ar gyfer gyrru oddi ar y ffordd? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pam ydych chi'n meddwl eu bod yn gwneud hyn? Beth sy'n gwneud ichi feddwl hynny?
- Pwy allai fod â diddordeb mewn gwneud gweithgaredd fel hwn? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pwy allai fod angen gyrru'n rheolaidd yn yr amodau hyn? Pam?
- Ble mae'r man hwn yn y clip fideo yn eich barn chi? Beth sy'n gwneud i chi feddwl hynny?

COMIN GELLIGAER & MERTHYR COMMON
Llywodraeth Cymru Welsh Government

Tasg 1: Parhad…

- Ble arall allwch chi wneud gweithgareddau fel hyn? Sut ydych chi'n gwybod?
- Ym mhle mae'n gyfreithlon i wneud gweithgareddau fel hyn? Ym mhle mae'n anghyfreithlon? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pryd maen nhw'n gwneud y gweithgaredd hwn? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pryd allai fod yr amser gorau o'r flwyddyn i wneud hyn? Pam?

Tasg 2: Sut allwn ni yrru oddi ar y ffordd yn lleol?

Gofynnwch i grwpiau bach o ddysgwyr wneud ymchwil i ble mae pobl yn gyrru oddi ar y ffordd yn yr ardal leol.

Anogwch nhw i ddod o hyd i enghreifftiau sy'n cynnig profiadau cyfreithlon oddi ar y ffordd, fel:

- Mud Mayhem (https://mudmayhem.co.uk/en/venue/oVenue-10817_oVenAct-4)
- Canolfan oddi ar y ffordd Dave Thorpe (https://davethorpehonda.com/)
- Battle MX Track (http://www.battlemx.co.uk/)

a hefyd enghreifftiau o yrru oddi ar y ffordd yn anghyfreithlon, megis ar Gomin Gelligaer a Merthyr. Gallent ddefnyddio grid CwAMFf (**Adnodd 3**) i gofnodi eu canfyddiadau.

Cwestiynau a awgrymir

- Pa wybodaeth sydd angen i chi ddod o hyd iddi?
- Ble a sut ydych chi'n mynd i chwilio am y wybodaeth hon? Pam?
- Beth ydych chi'n meddwl y byddwch chi'n ei ddarganfod? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth ydych chi wedi'i ddarganfod?
- Ble gall pobl yrru oddi ar y ffordd yn gyfreithlon yn yr ardal hon?
- Ble mae pobl yn gyrru oddi ar y ffordd yn anghyfreithlon yn yr ardal hon?
- Pam maen nhw'n dewis y lleoedd hyn? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Ble daethoch chi o hyd i'r wybodaeth hon?
- Pa mor ddibynadwy yw'r wybodaeth hon? Sut ydych chi'n gwybod hynny?

Yna, gallai gwahanol grwpiau o ddysgwyr ystyried manteision ac anfanteision gyrru oddi ar y ffordd yn gyfreithlon ac yn anghyfreithlon a gellid casglu rhestr ddosbarth sy'n crynhoi'r rhesymau y mae llawer o bobl yn dewis cymryd rhan mewn gweithgaredd anghyfreithlon oddi ar y ffordd.

COMIN GELLIGAER & MERTHYR COMMON
Llywodraeth Cymru Welsh Government

Tasg 3: Beth yw'r peryglon/materion gyrru oddi ar y ffordd ar Gomin Gelligaer a Merthyr?

Gofynnwch i grwpiau o ddysgwyr feddwl am a thrafod y materion sy'n codi wrth i bobl ddefnyddio'r Comin i yrru oddi ar y ffordd yn anghyfreithlon. Anogwch nhw i ystyried sut y gallent effeithio ar y bobl sy'n cyflawni'r gweithgaredd ac ar y fflora a'r ffawna sy'n byw ar y Comin.

Dangoswch y clip fideo camera pen (**Adnodd 4**) i'r dysgwyr neu gwahoddwch nhw i'w gyrchu ar-lein:

https://www.youtube.com/watch?v=1ArBOilzwoE

Anogwch y dysgwyr i drafod y clip fideo ac i rannu eu syniadau gyda'r dosbarth.

Cwestiynau a awgrymir

- Beth welsoch chi ar y clip fideo? Sut oedd yn gwneud i chi deimlo? Pam?
- Beth ydych chi'n meddwl y byddai'r beiciwr wedi bod yn ei feddwl? Pam?
- Beth yw'r peryglon i bobl sy'n defnyddio'r Comin ar gyfer gyrru oddi ar y ffordd? Sut ydych chi'n gwybod hynny?
- Pam nad yw hyn yn eu hatal i yrru oddi ar y ffordd? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut gallai gyrru oddi ar y ffordd effeithio ar y planhigion a'r anifeiliaid sy'n byw ar y Comin?
- Pam bod hyn yn broblem?
- Pa mor bwysig yw'r pethau hyn? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut gallai hyn effeithio ar y Comin yn y dyfodol? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

COMIN GELLIGAER & MERTHYR COMMON
Llywodraeth Cymru Welsh Government

Tasg 4: Sut y gallem hyrwyddo gyrru cyfreithlon oddi ar y ffordd?

Dangoswch glip i ddysgwyr o weithgaredd gyrru oddi ar y ffordd cyfreithiol yn Ne Cymru, er enghraifft, Yamaha yn Llanidloes https://www.youtube.com/watch?v=yJ7mlfBBvzk neu defnyddiwch y clip fideo cyntaf eto - Her y Cwad (**Adnodd 1**).

Gofynnwch i grwpiau o ddysgwyr feddwl am a thrafod pa gamau y gellir eu cymryd i hyrwyddo gyrru oddi ar y ffordd yn gyfreithlon yn lleol ac i atal gyrru oddi ar y ffordd yn anghyfreithlon ar Gomin Gelligaer a Merthyr.

Cwestiynau a awgrymir

- Pam y byddem ni eisiau i bobl yrru oddi ar y ffordd yn gyfreithlon yn hytrach nag yn anghyfreithlon?
- Pwy sy'n berchen ar gerbydau oddi ar y ffordd yn lleol? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pam eu bod nhw'n prynu cerbydau oddi ar y ffordd? Ble maen nhw'n eu defnyddio?
- Sut y gallem berswadio pobl sy'n berchen ar gerbydau oddi ar y ffordd i beidio â'u defnyddio ar y Comin?
- Sut y gallem gynnwys cwmnïau lleol fel Marsh MX i hyrwyddo gyrru cyfreithlon oddi ar y ffordd?
- Ble fyddai'n lle da yn lleol ar gyfer gyrru oddi ar y ffordd yn gyfreithlon? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pwy sy'n berchen ar y tir hwn? Sut ydych chi'n gwybod neu sut allech chi ddarganfod?
- Sut y gallem eu perswadio i ganiatáu gweithgareddau gyrru oddi ar y ffordd ar y tir hwn?
- Beth arall fyddai ei angen ar gwmni i sefydlu gyrru cyfreithlon oddi ar y ffordd? Pam?

Tasg 5: Sut y gallem ddatblygu cynllun gweithredu?

Gwahoddwch grwpiau o ddysgwyr i ddefnyddio eu trafodaethau a'u syniadau o Dasg 4 i ddatblygu 'Cynllun Gweithredu' i leihau'r gweithgaredd gyrru oddi ar y ffordd anghyfreithlon ar Gomin Gelligaer a Merthyr. Efallai y byddan nhw'n taflu syniadau gan ddefnyddio Mat bwrdd (**Adnodd 4**) fel eu bod yn blaenoriaethu gweithredoedd posib.

(Mae Mat bwrdd yn annog pob aelod o grŵp o bedwar i rannu syniadau mewn modd adeiladol a gweledol. Rhoddir 'mat bwrdd' A3 mawr wedi'i lamineiddio i'r dysgwyr, ynghyd â rhai nodiadau gludiog. Mae pob aelod o'r grŵp yn llunio eu syniadau eu hunain ar broblem benodol ac yn eu hysgrifennu ar nodiadau gludiog. Yna mae ef/hi yn glynu'r nodiadau gludiog ar eu rhan nhw o fat bwrdd eu grŵp. Mae hyn yn darparu sylfaen fwy cadarn i ddysgwyr holi aelodau eraill o'u grŵp am syniadau.

COMIN GELLIGAER & MERTHYR COMMON
Llywodraeth Cymru Welsh Government

Tasg 5: Parhad…

Yna, mae pob grŵp yn llunio ateb cydweithredol trwy symud nodiadau gludiog dethol: mae syniadau y cytunwyd eu bod yn rai pwerus yn cael eu symud yn agos at y canol, rhoddir syniadau llai pwerus ymhellach allan. Yna, rhennir syniadau'r grŵp â grwpiau eraill.)

Anogwch y dysgwyr i ddefnyddio'r broses hon a'r deilliannau i ddatblygu cynllun gweithredu clir, gan fanylu ar awgrymiadau a allai arwain at leihau gweithgaredd gyrru oddi ar y ffordd anghyfreithlon ar y Comin.

Cwestiynau a awgrymir

- Pa syniadau sydd gennych chi ar gyfer lleihau gyrru oddi ar y ffordd ar y Comin?
- Pa un yw eich syniad gorau? Pam ydych chi'n meddwl hynny? Pam fyddai'r syniad hwn yn gweithio?
- Pa rai o'r syniadau eraill ydych chi'n eu hoffi? Pam?
- Allan o holl syniadau'r grŵp, pa rai yw'r gorau? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut byddwch chi'n datblygu'ch Cynllun Gweithredu? Pam ei wneud felly?
- Pa mor llwyddiannus ydych chi'n meddwl y gallai'ch cynllun fod? Pam?

COMIN GELLIGAER & MERTHYR COMMON
Llywodraeth Cymru Welsh Government

Adnodd 2: Sgwâr ffynhonnell

Beth sy'n digwydd?

Beth arall ydych chi eisiau ei wybod?

Beth allwch chi ei ddyfalu/gasglu?

Beth allwch chi ei weld/ arsylwi?

Sut y byddwch chi'n darganfod?

Adnodd 3: Grid CwAMFf

Cwestiwn	Ateb	Manylion	Ffynhonnell

Adnodd 5: Mat bwrdd



Adnodd 6: Cwestiynau ffocws a awgrymir

Tasg 1: Beth yw gyrru oddi ar y ffordd?

- Beth sy'n digwydd yn y clip fideo? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pa fath o gerbyd yw hwn? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth yw 'oddi ar y ffordd'? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa gerbydau eraill sy'n cael eu defnyddio ar gyfer gyrru oddi ar y ffordd? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pam ydych chi'n meddwl eu bod yn gwneud hyn? Beth sy'n gwneud ichi feddwl hynny?
- Pwy allai fod â diddordeb mewn gwneud gweithgaredd fel hwn? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pwy allai fod angen gyrru'n rheolaidd yn yr amodau hyn? Pam?
- Ble mae'r man hwn yn y clip fideo yn eich barn chi? Beth sy'n gwneud i chi feddwl hynny?
- Ble arall allwch chi wneud gweithgareddau fel hyn? Sut ydych chi'n gwybod?
- Ym mhle mae'n gyfreithiol i wneud gweithgareddau fel hyn? Ym mhle mae'n anghyfreithlon? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pryd maen nhw'n gwneud y gweithgaredd hwn? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pryd allai fod yr amser gorau o'r flwyddyn i wneud hyn? Pam?

Tasg 2: Sut allwn ni yrru oddi ar y ffordd yn lleol?

- Pa wybodaeth sydd angen i chi ddod o hyd iddi?
- Ble a sut ydych chi'n mynd i chwilio am y wybodaeth hon? Pam?
- Beth ydych chi'n meddwl y byddwch chi'n ei ddarganfod? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth ydych chi wedi'i ddarganfod?
- Ble gall pobl oddi ar y ffordd yn gyfreithlon yn yr ardal hon?
- Ble mae pobl oddi ar y ffordd yn anghyfreithlon yn yr ardal hon?
- Pam maen nhw'n dewis y lleoedd hyn? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Ble daethoch chi o hyd i'r wybodaeth hon?
- Pa mor ddibynadwy yw'r wybodaeth hon? Sut ydych chi'n gwybod hynny?

COMIN GELLIGAER & MERTHYR COMMON
Llywodraeth Cymru Welsh Government

Tasg 3: Beth yw peryglon/materion gyrru oddi ar y ffordd ar Gominaer Gelligaer a Merthyr?

- Beth welsoch chi ar y clip fideo? Sut oedd yn gwneud i chi deimlo? Pam?
- Beth ydych chi'n meddwl y byddai'r beiciwr wedi bod yn ei feddwl? Pam?
- Beth yw'r peryglon i bobl sy'n defnyddio'r Comin ar gyfer gyrru oddi ar y ffordd? Sut ydych chi'n gwybod hynny?
- Pam nad yw hyn yn eu hatal i yrru oddi ar y ffordd? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut gallai gyrru oddi ar y ffordd effeithio ar y planhigion a'r anifeiliaid sy'n byw ar y Comin?
- Pam bod hyn yn broblem?
- Pa mor bwysig yw'r pethau hyn? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut gallai hyn effeithio ar y Comin yn y dyfodol? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

Tasg 4: Sut y gallem hyrwyddo gyrru cyfreithlon oddi ar y ffordd?

- Pam y byddem ni eisiau i bobl yrru oddi ar y ffordd yn gyfreithlon yn hytrach nag yn anghyfreithlon?
- Pwy sy'n berchen ar gerbydau oddi ar y ffordd yn lleol? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pam eu bod nhw'n prynu cerbydau oddi ar y ffordd? Ble maen nhw'n eu defnyddio?
- Sut y gallem berswadio pobl sy'n berchen ar gerbydau oddi ar y ffordd i beidio â'u defnyddio ar y Comin?
- Sut y gallem gynnwys cwmnïau lleol fel Marsh MX i hyrwyddo gyrru cyfreithlon oddi ar y ffordd?
- Ble fyddai'n lle da yn lleol ar gyfer gyrru oddi ar y ffordd yn gyfreithlon? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pwy sy'n berchen ar y tir hwn? Sut ydych chi'n gwybod neu sut allech chi ddarganfod?
- Sut y gallem eu perswadio i ganiatáu gweithgareddau gyrru oddi ar y ffordd ar y tir hwn?
- Beth arall fyddai ei angen ar gwmni i sefydlu gyrru cyfreithlon oddi ar y ffordd? Pam?

Tasg 5: Sut y gallem ddatblygu cynllun gweithredu?

- Pa syniadau sydd gennych chi ar gyfer lleihau gyrru oddi ar y ffordd ar y Comin?
- Pa un yw eich syniad gorau? Pam ydych chi'n meddwl hynny? Pam fyddai'r syniad hwn yn gweithio?
- Pa rai o'r syniadau eraill ydych chi'n eu hoffi? Pam?
- Allan o holl syniadau'r grŵp, pa rai yw'r gorau? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Sut byddwch chi'n datblygu'ch Cynllun Gweithredu? Pam ei wneud felly?
- Pa mor llwyddiannus ydych chi'n meddwl y gallai'ch cynllun fod? Pam?

Adnodd 7: Nodiadau'r athro

Ble allwch chi reidio cerbyd oddi ar y ffordd?

Ar unrhyw dir, lle mae perchennog y tir wedi rhoi caniatâd i wneud hynny:

- Cilffyrdd sy'n Agored i Bob Traffig (BOATS), cyn belled nad oes Gorchymyn Rheoleiddio Traffig (TRO).
- Os yw cerbyd yn gyfreithlon ar y ffordd (mae ganddo blatiau rhif) a bod gennych dreth, yswiriant, MOT a thrwydded yrru, yna gallwch ei reidio'n gyfreithlon ar y ffordd (neu lonydd gwyrdd sydd wedi'u dosbarthu fel ffyrdd).

Ble na allwch chi reidio'ch cerbyd oddi ar y ffordd?

Ar unrhyw dir, lle nad yw perchennog y tir wedi rhoi caniatâd. Mae hyn yn cynnwys:

- Tir comin
- Rhostir
- Llwybrau troed
- Llwybrau ceffylau
- Cilffyrdd cyfyngedig
- Llwybrau tynnu camlesi
- Rheilffyrdd segur
- Ffyrdd, gan gynnwys Lonydd Gwyrdd sydd wedi'u dosbarthu fel ffyrdd (os nad oes gennych drwydded yrru, yswiriant, treth, MOT ac os nad oes platiau rhif ar y beic)
- Ffyrdd a Ddefnyddiwyd fel Llwybrau Cyhoeddus (RUPPS) - newidiwyd y rhain i gilffyrdd cyfyngedig sawl blwyddyn yn ôl.

Canlyniadau

Mae'n anghyfreithlon gyrru neu reidio cerbyd a yrrir yn fecanyddol heb awdurdod cyfreithlon ar dir comin, rhostir neu dir nad yw'n rhan o ffordd, neu ar unrhyw ffordd sy'n llwybr troed, llwybr ceffylau neu gilffordd gyfyngedig (Adran 34, Deddf Traffig Ffyrdd 1988) .
Os cewch eich dal yn reidio'ch beic oddi ar y ffordd, eich beic modur pedair olwyn neu'ch cerbyd oddi ar y ffordd yn anghyfreithlon, yna fe allech chi wynebu'r hyn a ganlyn:

- Mae gan swyddogion y pŵer i atafaelu cerbydau oddi wrth yrwyr heb yswiriant, a gyrwyr nad oes ganddynt drwydded yrru o dan Adran 165A o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988
- Gellir adrodd amdanoch, lle bydd gofyn i chi ymddangos yn y llys am yrru heb yswiriant na thrwydded yrru, yn ogystal ag am yrru diofal neu beryglus, gyrru heb ofal na sylw dyladwy neu am yrru ar dir comin.
- Yn ogystal, gall swyddogion roi Hysbysiadau Adran 59 os cewch eich dal yn gyrru ar dir heb ganiatâd perchennog y tir. Os derbyniwch ddau rybudd mewn 12 mis, yna atafaelir eich cerbyd, a bydd yn rhaid i chi dalu i'w ddychwelyd. Gellir atafaelu'ch cerbyd heb rybudd os yw'r amgylchiadau'n ei gwneud yn anymarferol rhoi rhybudd. Os na fyddwch yn talu, yna bydd y cerbyd yn cael ei falu.

Nodiadau

Mae gyrru oddi ar y ffordd yn gosod cerbydau mewn ardaloedd nad ydynt wedi'u cynllunio ar eu cyfer. Mae hyn yn cael amrywiaeth o effeithiau ar yr amgylchedd naturiol, gan gynnwys:

- **Tarfu ar y ddaear**: Gall cerbydau oddi ar y ffordd gorddi pridd, gan arwain at rigolau, systemau gwreiddiau wedi'u difrodi, pridd cywasgedig, erydiad cyflymach, stormydd llwch yn amlach a/neu waddodi cynyddol mewn dyfrffyrdd.
- **Tarfu ar lystyfiant**: Yn ogystal â difrodi planhigion yn y broses o yrru drostynt, gall cerbydau oddi ar y ffordd ledaenu hadau wrth iddynt gorddi pridd a llystyfiant, gan gynorthwyo i ledaenu chwyn a all niweidio bywyd planhigion brodorol.
- **Tarfu ar fywyd gwyllt**: Wrth i gynefin naturiol gael ei gorddi, ei erydu neu ei oresgyn gan chwyn gwenwynig, mae'r bywyd gwyllt sy'n dibynnu arno yn dioddef. Hefyd, gall sŵn peiriant cerbyd ddychryn anifeiliaid, nid yn unig eu cicio allan o'u cynefin ond hefyd amddifadu cerddwyr a gwersyllwyr o'r cyfle i'w gweld.
- **Tarfu ar anifeiliaid pori**: Mae yna lawer o anifeiliaid pori ar y Comin gan gynnwys defaid a gwartheg. Mae'r rhain yn dibynnu ar dir pori da y gellir ei ddinistrio gan gerbydau oddi ar y ffordd gan arwain at ddiffyg maeth a'r posibilrwydd o glefyd. Yn yr un modd â bywyd gwyllt, mae sŵn peiriant yn dychryn yr anifeiliaid a gall arwain at anafiadau wrth iddynt redeg i ffwrdd yn ogystal â'r posibilrwydd o anifeiliaid pori beichiog yn camesgor.